# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 21 Hydref 2024

Amser: 12.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# Hybrid - Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

## 2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig): Sesiwn dystiolaeth

(12.00 - 12.30) (Tudalennau 1 - 22)

Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Clare Fernandes, Dirprwy Gyfarwyddwr, Dŵr a Llifogydd - Llywodraeth Cymru

James Mugleston, Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-24 - Papur 1 - Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-30-24 - Papur 2 - Papur briffio [Saesneg yn unig]

LJC(6)-30-24 - Papur 17 - Cyflwyniad gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith

## 3 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

(13.30 - 14.30) (Tudalennau 23 - 44)

Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg.

Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru

Iwan Roberts, Uwch-gyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Memorandwm Esboniadol

Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-24 – Papur 3 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**5.3 SL(6)534 – Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2024**

(Tudalennau 45 – 48)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-24 – Papur 18 – Adroddiad

LJC(6)-30-24 – Papur 19 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 7 Papurau i'w nodi

**7.2 Gohebiaeth gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022**

(Tudalennau 49 – 52)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-24 – Papur 20 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 18 Hydref 2024

LJC(6)-30-24 – Papur 21 – Llythyr at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 24 Medi 2024

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cyflwyniad CCW i drafodaethau Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ar y *Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)***

## CCW – pwy ydym ni

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CCW) yw'r sefydliad defnyddwyr statudol annibynnol sy'n cynrychioli defnyddwyr dŵr a charthffosiaeth preswyl a dibreswyl yng Nghymru a Lloegr. Sefydlwyd y Cyngor yn 2005 gyda'r nod penodol o gynrychioli defnyddwyr dŵr dan *Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991*[1].

## *Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)* a safbwynt paneli defnyddwyr CCW

Rydym yn cefnogi darpariaethau'r Bil a'i ddeddfiad yng Nghymru. Y cyfraniad mwyaf ystyrlon y gallwn ei wneud yw ar gynrychiolaeth defnyddwyr Cymru yng Nghymal 1.

Rydym yn cefnogi Cymal 1 (6) Rheolau a Thaliadau y Bil sy'n awgrymu y gallai'r Rheolau gynnwys gofyniad i bobl sy'n cynrychioli barn defnyddwyr fod yn aelodau o fwrdd, pwyllgor a phanel pob cwmni dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Gan nad yw cwsmeriaid yn gallu dewis eu darparwr dŵr, mae'n hollbwysig bod eu lleisiau'n cael eu clywed mewn materion allweddol sy'n effeithio ar ddefnyddwyr dŵr.

Mae CCW yn gofyn am gefnogaeth y Pwyllgor i'n cynnig ar gyfer panel defnyddwyr annibynnol dan arweiniad CCW ar gyfer pob cwmni dŵr yng Nghymru i wella cynrychiolaeth defnyddwyr.

## Pam mae paneli defnyddwyr yn syniad da

Mae angen paneli defnyddwyr annibynnol ar Gymru, sy'n cael eu hariannu a'u rhedeg gan CCW, i gael mewnbwn cryfach a mwy ystyrlon gan set wirioneddol amrywiol a chynrychioliadol o ddefnyddwyr yn barhaus. Hoffem weld dinasyddion Cymru'n cael cymaint o lais â defnyddwyr dŵr yn Lloegr, ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw.

Byddai paneli defnyddwyr yn helpu'r diwydiant dŵr i gael gafael ar safbwyntiau addysgol a dynamig gan ddefnyddwyr ar lawr gwlad. Gall y paneli hyn alw cyfarfodydd gyda chwmnïau bob blwyddyn i graffu ar eu data perfformiad blynyddol. Gallant ddwyn Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy i gyfrif ar adegau eraill hefyd, megis pe bai digwyddiad difrifol o ran cyflenwad neu ansawdd dŵr, ac unrhyw darfu ar wasanaethau neu berfformiad amgylcheddol oherwydd llifogydd. Hefyd, dylai fod yn

[1] Deddf Diwydiant Dŵr 1991 (legislation.gov.uk)

ofynnol i'r cwmnïau egluro, o leiaf bob blwyddyn, sut maen nhw wedi ystyried safbwyntiau defnyddwyr wrth wneud eu penderfyniadau.

### Pa fath o baneli defnyddwyr sy'n briodol ym marn CCW

Mae CCW wedi credu ers tro bod paneli defnyddwyr yn syniad da. Yn 2021, cyhoeddwyd ein papur *Future Consumer Representation Models*[2]. Er bod ein meddylfryd wedi newid ychydig ers hynny, mae llawer o'r egwyddorion yn parhau'r un mor wir.

Mae **Atodiad A** yn amlinellu ein syniadau cyfredol am y math o baneli defnyddwyr sy'n briodol. Dylai CCW redeg paneli gan ein bod yn annibynnol ac mae gennym brofiad o redeg panel defnyddwyr - ein cymuned Watervoice.[3]

### Llywodraethu ar gyfer paneli defnyddwyr

Mae'r sail ar gyfer llywodraethu'r paneli defnyddwyr gan CCW yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991 eisoes.

Mae'r cylch gwaith gan CCW eisoes i sefydlu pwyllgorau/grwpiau/paneli[27A] ar gyfer pob cwmni dŵr o dan *Ddeddf y Diwydiant Dŵr*, gyda sêl bendith Llywodraeth Cymru a Defra. Mae Atodlen 3A yn amlinellu hyn ymhellach. Dibenion y grwpiau hynny yw:

a. *Rhoi cyngor a gwybodaeth i'r Cyngor [CCW] ar faterion defnyddwyr sy'n effeithio ar ardaloedd y cwmnïau dŵr y dyrennir y grŵp iddynt*
b. *Dibenion eraill y gall CCW eu pennu (a allai gynnwys dwyn aelodau'r Byrddau/Bwrdd Gweithredol i gyfrif)*

### Paneli defnyddwyr a chraffu cyhoeddus presennol

Byddai ein cynnig panel defnyddwyr yn ategu ac yn gwella'r gwaith craffu cyhoeddus presennol ar y diwydiant dŵr yng Nghymru.

Mae CCW yn cydnabod bod gan Glas Cymru, cwmni daliannol Dŵr Cymru, Aelodau anghyflogedig *"sydd â dyletswydd i sicrhau bod y cwmni'n rhedeg yn dda, er budd ei gwsmeriaid"[4].* Fodd bynnag, nid yw Aelodau Glas Cymru'n cymryd lle ein panel defnyddwyr arfaethedig wrth iddynt gyflawni rôl llywodraethu cwmni. Nid yw'r holl aelodau'n gwsmeriaid. Mae rôl Aelod yn wahanol i banel parhaus sy'n cynrychioli set amrywiol o ddefnyddwyr sy'n gallu rhoi golwg ystyrlon, amser real ar faterion pwysig.

Bydd gwaith yr Aelodau a'r paneli yn ategu ei gilydd. Bydd y paneli'n darparu gwybodaeth a dealltwriaeth annibynnol gan gwsmeriaid i Aelodau Glas Cymru i lywio eu penderfyniadau a'u cyngor i Dŵr Cymru. Gall aelodau roi cwestiynau i CCW hefyd i'w cynnwys i'w hateb gan y panel a chael safbwynt annibynnol y defnyddwyr yn ôl.

---

[2] Future consumer representation models - CCW
[3] WaterVoice: Views of current customers on water resources - CCW
[4] Glas Cymru | Dŵr Cymru (dwrcymru.com)

Bydd cwsmeriaid Hafren Dyfrdwy yn elwa'n fawr ar gynnig y panel defnyddwyr hefyd. Byddai'n caniatáu i'r cwmni ymgysylltu â phobl sydd wedi'u heffeithio gan faterion sy'n benodol i leoliadau gwledig niferus Cymru.

**Casgliad**

Rydym yn awyddus i gefnogi craffu seneddol effeithiol yng Nghymru mewn ffordd nad yw'n oedi deddfu'r Bil ar draul defnyddwyr Cymru.

Mae CCW yn annog y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith i gefnogi Cymal 1 (6) y Bil a chytuno y dylai CCW redeg y paneli.

Os hoffech drafod ein barn ar gymalau eraill yn unol â'ch amlinelliad yn eich llythyr ar 4 Hydref, megis Cymal 3 ar orlifiadau argyfwng a Chymal 2 ar Gynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd (nad ydynt yn berthnasol i Gymru ar hyn o bryd), rydym yn hapus i drefnu cyfarfod.

Cyswllt:
Jenny Suggate
Jennifer.suggate@ccwater.org.uk

**Atodiad A**
**Trosolwg o baneli defnyddwyr posibl**

Mae angen i'r ffordd y caiff y paneli eu sefydlu gyflawni dau nod:

- Cyflawni'r canlyniad gofynnol o sicrhau bod barn defnyddwyr ar faterion defnyddwyr trwy baneli defnyddwyr ar gael i gwmnïau; a
- Chreu mecanwaith i'r safbwyntiau hynny gael eu cyflwyno i benaethiaid cwmnïau mewn ffordd gredadwy a thryloyw

(Noder: gwaith Rheolau Ofwat yw sicrhau bod cwmnïau'n ystyried y safbwyntiau hynny)

<u>Paneli defnyddwyr</u>
Mae Paneli Ar-lein o ddefnyddwyr dŵr yn darparu sgwrs barhaus ystyrlon rhwng cwmnïau dŵr a'u defnyddwyr. Mae paneli defnyddwyr yn cyflwyno ffon fesur o sut mae defnyddwyr yn teimlo, yn seiliedig ar eu profiad bywyd o wasanaethau dŵr a charthffosiaeth.

- Mae paneli defnyddwyr yn cynnwys defnyddwyr nid arbenigwyr.
- Dylai paneli defnyddwyr redeg drwy'r amser – nid dim ond pan fydd adolygiadau prisiau yn digwydd. Byddai'r Paneli yn:
    - Cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau ymchwil/ymgysylltu bob mis – e.e. cwestiynau i'w hateb.
    - Gallai'r cwestiynau fod yn rhai sy'n cael eu gofyn i'r holl Baneli i gael barn sector neu i gwmni penodol.
    - Gallai Llywodraeth Cymru/ cwmnïau dŵr/ Arolygiaeth Dŵr Yfed/ Cyfoeth Naturiol Cymru/ Grwpiau Her Annibynnol/ aelodau Glas Cymru/ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ofyn am ddefnyddio'r paneli i ofyn cwestiynau.
    - Ar gyfer rhai tasgau, byddai'r Paneli'n rhan o broses ailadroddol, gan dderbyn adborth a chael eu holi am y camau nesaf.
- Dylai fod yn ofynnol i'r Paneli alw cyfarfodydd gyda chwmnïau o leiaf unwaith y flwyddyn i adolygu Data Perfformiad Blynyddol y cwmnïau, ac ar adegau eraill fel bo'r angen. Er enghraifft, pe bai digwyddiad mawr, fel hysbysiad berwi dŵr cwmni South West Water yn Brixham, Lloegr.
- Byddai cadeirydd annibynnol a ariennir gan CCW yn darparu'r gwahaniad angenrheidiol oddi wrth gwmnïau.
- Byddai'r Paneli Defnyddwyr yn cael eu rhedeg a'u hariannu gan CCW ac ni fyddent yn cael eu hariannu gan y cwmnïau.
- Dylai CCW gyhoeddi barn y Paneli, cyfarfodydd, hysbysiadau o gyfarfodydd ac ati ar ei wefan.

<u>Beth all paneli defnyddwyr ei wneud?</u>

Dylai paneli defnyddwyr fod mor amrywiol â phosibl (o ystyried maint y panel) o sylfaen cwsmeriaid y cwmni. Mae CCW yn argymell y dylai bod gorgynrychiolaeth o bobl o aelwydydd ar incwm isel a rhai agored i niwed gan eu bod yn llai tebygol o ymgysylltu. Yna byddai CCW yn cyd-destunoli'r allbynnau yn unol â hynny.

Bydd paneli yn caniatáu i amrywiaeth eang iawn o bynciau gael eu harchwilio:

- 
- Gwiriad byw ar berfformiad cwmni a sector. Gallai hyn gyd-fynd â chylch cyhoeddiadau data blynyddol e.e. rhyddhau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol neu adroddiadau cwynion CCW.
- Byddai sesiwn holi ac ateb ar-lein flynyddol gyda thîm gweithredol ac aelodau bwrdd y cwmni dŵr yn eu dwyn yn uniongyrchol i gyfrif. Byddai gan baneli'r pŵer hefyd i ofyn am sesiynau amlach gyda thîm gweithredol a bwrdd y cwmni pe bai amgylchiadau'n golygu bod hyn yn angenrheidiol. Byddai CCW yn hwyluso'r

sesiynau hyn er mwyn rhoi'r grym i ddefnyddwyr herio penaethiaid cwmnïau dŵr, fel y gwnaethom mor llwyddiannus gyda'r sesiynau *Eich dŵr, eich dweud* yn ystod yr adolygiad prisiau. Bydd croeso i aelodau'r cyhoedd yn ogystal ag aelodau'r panel fynychu'r sesiynau hyn.

- Golwg gyfredol ar bynciau allweddol i ddeall profiadau bywyd defnyddwyr. Er enghraifft, mae fforddiadwyedd, pwysau bregusrwydd, a lefel ac argaeledd cymorth yn faterion byw pwysig yn y sector dŵr.
- Barn ar flaenoriaethau, cyfaddawdau a lefelau biliau yn ystod y prosesau adolygu prisiau.
- Profiadau o ddeunyddiau cyfathrebu cwmnïau, e.e. pa mor glir yw eich bil i'w ddeall? Pa mor dda mae'ch cwmni dŵr yn esbonio'r hyn mae eich arian yn cael ei wario arno?
- Cipolwg ar faterion newydd a rhai sy'n ymddangos.
- Sut mae cwmnïau'n ymdrin ag unrhyw elw gormodol, ffawdelw a pherfformiad gwell. Efallai y bydd yn ofynnol i gwmnïau ymgynghori â'u paneli ar y materion hyn.
- Lle i brofi polisïau, dulliau a chynigion newydd gan Lywodraeth Cymru, Ofwat, Grwpiau Her Annibynnol, cwmnïau dŵr, Arolygiaeth Dŵr Yfed, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, aelodau Glas Cymru a CCW
- Ffynhonnell gwybodaeth am farn defnyddwyr am sectorau eraill, e.e. ynni, ar gyfer cymharu a dysgu
- Safbwynt y talwyr biliau ar lefelau bonws, cyflog swyddogion gweithredol ac ati.
- Pan fydd digwyddiadau'n codi, go brin y bydd llawer o aelodau'r panel yng nghanol y digwyddiad hwnnw. Fodd bynnag, dylai cwmnïau gynnal ymchwil ar ddigwyddiadau ar raddfa fawr i ddysgu gwersi a gall hyn roi cyfle i'r panel gwrdd â'r cwmni ynghylch canfyddiadau'r ymchwil honno. Gallai'r panel ehangach fod yn ymwneud â phynciau fel trafod lefelau digolledu/iawndal, neu pa mor dda cafodd y digwyddiad dan sylw ei gyfleu i gwsmeriaid yn ehangach (mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer digwyddiadau ansawdd dŵr).

<u>Sut mae paneli defnyddwyr yn gweithio?</u>

- Mae paneli defnyddwyr yn cynnal eu gweithgareddau ar-lein. Does dim angen cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae hwn yn ateb da i'r sector dŵr gan fod llawer o gwmnïau'n cwmpasu ardaloedd daearyddol eang iawn.
- Byddai aelodau'r panel yn cynnal y rhan fwyaf o weithgareddau ymchwil/ymgysylltu yn eu hamser eu hunain.
- Gall aelodau'r panel ddod at ei gilydd fel grwpiau amrywiol ar gyfer ymchwil feintiol a/neu ansoddol yn ogystal ag ymchwiliad cydgynghorol. Byddai'r rhain yn sesiynau wedi'u hwyluso. Yr asiantaeth ymchwil fyddai'n gyfrifol am wneud hyn.
- Dim ond y cyfarfodydd ffurfiol sydd angen cadeirydd. Mae hyn yn debygol o ddigwydd 3-4 gwaith y flwyddyn.

- Bwriedir i baneli defnyddwyr gynnwys croestoriad o ddefnyddwyr, felly maen nhw'n adlewyrchu'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth. Mae'r graddau y maen nhw'n gwbl gynrychioliadol yn cael ei bennu gan faint y paneli - po fwyaf yw'r panel, y mwyaf cynrychioliadol fyddan nhw.
- Mae aelodaeth paneli defnyddwyr yn esblygu dros amser. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer mwy o gyfraniad gan fwy o aelodau cymdeithas. Mae'n golygu bod unrhyw arian sy'n cael ei wario ar gymhelliant yn cael ei wasgaru mor eang – a theg - â phosibl. Mae'n golygu hefyd nad yw'r aelodau'n dod yn arbenigwyr yn y sector dŵr wrth iddyn nhw feithrin gwybodaeth trwy gymryd rhan. Mae'n hanfodol bod paneli defnyddwyr yn rhoi barn y 'person ar y stryd'.

- I fod â gwir "bys ar y pwls", rhaid parhau i ennyn diddordeb y panel, felly rhaid cynnal gweithgareddau yn aml. Fel arfer, bydd gan banel o leiaf ddau neu dri gweithgaredd y mis i'w gwneud.
- Byddai'r platfform ar-lein a ddefnyddir gan aelodau'r panel i ateb cwestiynau'n cael ei ddefnyddio hefyd fel sianel agored iddyn nhw godi unrhyw faterion neu gwestiynau sydd ganddynt.

Byddai CCW yn llunio'r amserlen o weithgareddau ymchwil/ymgysylltu ar gyfer y paneli. Bydd hyn o leiaf chwe mis ymlaen llaw. Byddai'r amserlen yn hyblyg er mwyn caniatáu i ni ystyried problemau a digwyddiadau sy'n datblygu ar fyr rybudd. Byddwn yn rhannu'r amserlen â Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Dŵr Yfed, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ofwat, gan roi cyfle iddyn nhw gyfrannu.

Bob mis, byddai CCW yn cyhoeddi adroddiad ar weithgareddau a chanfyddiadau pob panel. Byddai'r adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd ac yn cael ei anfon at Brif Weithredwyr cwmnïau dŵr. Byddai'n ofynnol i Brif Swyddogion Gweithredol cwmnïau dŵr ymateb yn gyhoeddus i ganfyddiadau'r panel, gan gynyddu eu hatebolrwydd cyffredinol i'w defnyddwyr.

Hefyd, byddai CCW yn defnyddio'r deunyddiau yn ein cyswllt uniongyrchol â chwmnïau dŵr i'w hysbysu a'u herio.

Mae CCW yn brofiadol mewn cynnal a chyhoeddi ymchwil ansoddol a meintiol a'r gofynion GDPR dan sylw.

Cyllid

Rhaid i baneli defnyddwyr fod yn annibynnol ar gwmnïau dŵr, a chael eu gweld felly. Felly ni ddylent ddibynnu arnyn nhw am arian. Llwybr cyllido syml yw drwy CCW - ardoll ar filiau dŵr. Er mwyn darparu ar gyfer y lefel hon o gyllid, byddai'n ychwanegu tua 12-15c y flwyddyn at bob bil dŵr yng Nghymru a Lloegr drwy ffi drwydded CCW.

Cynhwysiant

Mae defnyddio paneli ar-lein yn unig yn golygu perygl o eithrio rhai pobl yn ddigidol. Yn ein hymchwil ehangach, rydym eisoes yn defnyddio technegau i sicrhau bod safbwyntiau rhai grwpiau yn cael eu cynrychioli.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# SL(6)534 – Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2024

## Cefndir a diben

Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ("Deddf 2023") yn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth ar gyfer cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae Deddf 2023 yn ffurfio rhan o god o gyfraith sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 13 ac Atodlen 14 i Ddeddf 2023.

Mae Atodlen 13 i Ddeddf 2023 yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

Mae rheoliad 3 yn mewnosod yn Atodlen 13 newid canlyniadol i Ddeddf Harbyrau 1964.

Mae rheoliad 4 yn hepgor paragraff 73 o Atodlen 13.

Mae Atodlen 13 i Ddeddf 2023 hefyd yn gwneud newidiadau i Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf 1990"). Mae Deddf 1990 wedi'i diwygio ers hynny gan Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i Atodlen 13 i Ddeddf 2023 yng ngoleuni'r diwygiadau hynny.

Mae Atodlen 14 i Ddeddf 2023 yn gwneud darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed. Mae rheoliad 22 yn mewnosod darpariaeth arbed bellach yn Atodlen 14.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 **(Darpariaeth Ganlyniadol)** (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2024 (pwyslais wedi'i ychwanegu). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 13 ac Atodlen 14 i Ddeddf 2023. Mae Atodlen 13 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau, mae Atodlen 14 yn cynnwys darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed. Mae'r diwygiad a wneir i Atodlen 14 gan y Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth arbed. A all Llywodraeth Cymru gadarnhau a yw'n ystyried mai 'Darpariaeth Ganlyniadol' yw'r geiriad priodol i'w ddefnyddio yn nheitl y Rheoliadau hyn, neu a ddylai gyfeirio hefyd at y ddarpariaeth arbed?

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodir bod y Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, yn unol ag adran 209(5)(h) o Ddeddf 2023.

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodir nad yw Atodlenni 13 a 14 i Ddeddf 2023 mewn grym eto. Yn unol â Gorchymyn (Cychwyn) 2024 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, bydd Atodlenni 13 a 14 yn dod i rym ar 4 Tachwedd 2024. Daw'r Rheoliadau hyn, os cânt eu cymeradwyo gan y Senedd, i rym ar 3 Tachwedd 2024.

4. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nid oedd y Rheoliadau hyn yn destun ymgynghoriad ac nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi. Nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *14. Nid oes unrhyw ymgynghori wedi'i gynnal ar y rheoliadau, gan eu bod yn adlewyrchu'r polisi presennol ac yn ailddatgan y gweithdrefnau presennol.*
>
> *15. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer y rheoliadau hyn, gan fod y rheoliadau'n ailddatgan rheoliadau presennol. Nid yw'r rheoliadau'n newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd sylweddol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru ar gyfer y pwynt adrodd cyntaf.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 14 Hydref 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2024**

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:** Dylai enw OS ddangos yn fanwl gywir beth yw natur yr OS a thynnu gwahaniaeth rhyngddo a phob OS arall. Wrth baratoi'r OS, rhoesom ystyriaeth ofalus i'r pwynt sy'n gofyn a ddylai'r enw gyfeirio hefyd at ddarpariaeth arbed. Daethom i'r casgliad, gan fod yr holl ddarpariaeth sydd yn Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2024 yn ganlyniadol ar Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, ei bod yn briodol nad ydym ond yn cyfeirio at ddarpariaeth ganlyniadol. Nodwn y buasai cynnwys cyfeiriad at ddarpariaethau arbed yn yr enw yn ddewis arall posibl, ond yn yr achos hwn penderfynwyd na fyddem yn gwneud hynny.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0286/24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdyddd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Hydref 2024

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Gorffennaf mewn ymateb i'm diweddariad ar Reoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) a Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 ("Rheoliadau 2022").

Rydych yn gofyn am amserlen bendant ar gyfer cyflwyno Offeryn Statudol (OS) diwygio i ddatrys Pwynt Adrodd 25. Mae fy swyddogion yn gweithio i gyflwyno hyn o fewn y chwe mis nesaf. Hyderaf fod yr ymrwymiad hwn yn rhoi sicrwydd addas, ond pe bai sefyllfa fel ymateb i achosion brys, byddai'n rhaid ailedrych ar y llinell amser hon.  Byddaf yn hysbysu'r Pwyllgor os bydd amserau'n newid.

O ran Pwynt Adrodd 30, nodaf eich awgrym ynghylch hysbysu'r Senedd os daw'n amlwg nad yw'r ymrwymiad hwn yn debygol o gael ei gyflawni. Byddwch yn ymwybodol mai fi, yn fy rôl flaenorol fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, oedd yn ceisio ymrwymiad gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd ar y pryd, i newid y drefn o fod yn negyddol i gadarnhaol. Felly, byddwch yn gwerthfawrogi fy mod yn awyddus i'r newid hwn gael ei gyflawni.

Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol fod y Rhaglen Ddeddfwriaethol hyd ddiwedd y Senedd hon wedi'i chyhoeddi ac ar hyn o bryd nid oes cyfrwng deddfwriaethol ar gael i alluogi'r newid hwn. Rwyf hefyd yn teimlo'n gryf nad mater i'r Cabinet hwn yw penderfynu ewyllys Cabinetau'r dyfodol trwy bennu dyddiad erbyn pryd y bydd cyfleoedd i fynd i'r afael â'r pwynt adrodd hwn yn dod i ben.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd fy swyddogion yn parhau i chwilio am gyfleoedd fel mater o drefn i ddeddfu ar y newid hwn ac ni fyddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd tan y bydd rhywbeth i'w adrodd.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Gwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

24 Medi 2024

Annwyl Huw,

Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

Diolch am eich ymateb dyddiedig 9 Medi i'm llythyr dyddiedig 3 Gorffennaf 2024 mewn perthynas â'r Rheoliadau uchod, yn dilyn yr ohebiaeth flaenorol a fu rhyngom.

Bu fy Mhwyllgor yn trafod eich llythyr yn ein cyfarfod ar 16 Medi. Nodwn eich esboniad pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno offeryn statudol diwygio eto i fynd i'r afael â phwynt adrodd 25 o adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau, a'ch barn bod effaith y gwall a nodwyd "yn eithaf di-nod ar hyn o bryd".

Nodwn hefyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio'r Rheoliadau cyn gynted â phosibl.

Fodd bynnag, mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol y bydd dwy flynedd wedi mynd heibio, erbyn mis Rhagfyr, ers gofyn i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau hyn. Mae'n siŵr eich bod hefyd yn ymwybodol ei bod eisoes yn hysbys, bryd hynny, fod y Rheoliadau yn ddiffygiol, a bod y Senedd wedi eu cymeradwyo gan wybod bod y Gweinidog Materion Gwledig wedi ymrwymo yn ystod y ddadl i wneud y cywiriadau gofynnol yn ystod y flwyddyn ganlynol. Gan gofio hynny, credwn ei bod yn hollbwysig bod y Pwyllgor – ac yn bwysicach fyth, y Senedd – yn cael amserlen fwy pendant o ran pryd y mae cyfle o'r fath i ddiwygio'r Rheoliadau yn debygol o godi, a therfyn amser pendant ar gyfer cyflwyno Rheoliadau diwygio. Gyda phob parch, yn ein barn ni, mae'n anfoddhaol gadael rheoliadau diffygiol ar y llyfr statud tan ryw bwynt amwys yn y dyfodol y mae'n bosibl na fydd byth yn cyrraedd.

Mae hefyd yn anffodus clywed nad oes unrhyw gyfryngau deddfwriaethol addas ar gael ar hyn o bryd i fynd i'r afael â phwynt adrodd 30 o adroddiad y Pwyllgor, yn unol ag ymrwymiad y Gweinidog ar y pryd i newid y weithdrefn graffu sy'n gymwys i'r pwerau dirprwyedig yn y Rheoliadau. Nodwn na allwch ychwaith ymrwymo i amserlen i gyflawni'r newid hwn. Mae hyn yn siomedig eto, o ystyried bod y Senedd wedi cymeradwyo'r Rheoliadau ar ôl clywed ymrwymiad y Gweinidog. Yn sgil yr ansicrwydd parhaus hwn, rydym yn ymwybodol y gallai pwynt godi lle y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru hysbysu'r Senedd – yn anffodus – na chaiff yr ymrwymiad hwn ei gyflawni. Byddem yn ddiolchgar, felly, pe gallech nodi dyddiad erbyn pryd y byddwch yn hysbysu'r Senedd bod y pwynt hwn wedi'i gyrraedd.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 17 Hydref 2024.

Yn gywir,



Mike Hedges
Cadeirydd